



Investigatory Powers
Commissioner's Office

PO Box 29105, London
SW1V 1ZU

Mr Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Drwy e-bost: Chiefexecutive@Ceredigion.gov.uk

17^{eg} Awst 2022

Arolygiad IPCO - Cyngor Sir Ceredigion

Annwyl Mr Evans

Mae eich awdurdod i fod i gael ei arolygiad nesaf yn y rhaglen, ar y defnydd o wylidwriaeth gudd a ffynonellau cuddwybodaeth dynol (CHIS), yn unol â darpariaethau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn 2019.

Daeth i'r amlwg mewn blynyddoedd diweddar bod awdurdodau fel eich un chi, am amryw resymau, gan gynnwys llai o adnoddau, gwell mynediad at baru data a'r defnydd o weithgarwch agored yn hytrach na chudd o orfodi'r gyfraith, wedi gwneud tipyn llai o awdurdodiadau RIPA - yn wir ni wnaed awdurdodiad o gwbl gan rai yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, yn adolygu'r drefn arolygu hirdymor ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a phenderfynwyd y dylid arfer dull mwy hyblyg o drefnu arolygiadau yn y tymor byr.

A gaf i ofyn, felly, am enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol neu Gydlynnydd RIPA a rhif ffôn cyswllt fel y gellir cynnal trafodaeth i asesu'r fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer eich cyngor chi. Gallai hyn olygu:

- nad oes ymweliad gan Arolygydd yn angenrheidiol ar yr achlysur hwn,
- bod angen mwy o wybodaeth neu ddogfennau cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch ymweliad, neu
- y cynhelir ymweliad ryw bryd yn y dyfodol.

Gallaf gynnig y dyddiadau a ganlyn ar gyfer cynnal arolygiad, sef 17, 18 neu 19 Hydref.

Rwyf hefyd wedi atodi i fy neges e-bost lythyr sicrwydd data i'ch sylw a byddai o gymorth pe gallwn drafod hwn gyda'ch Uwch Swyddog Cyfrifol RIPA neu Gydlynnydd RIPA.

Bydd Arolygydd bob amser yn ymweld os gwneir cais gan awdurdod unigol, ac afraid dweud na fydd y trefniadau newydd hyn yn newid awdurdodaeth IPCO i anfon Arolygydd pryd bynnag y byddwn yn ystyried bod hyn yn briodol ac angenrheidiol.

Yn gywir

Nick Fletcher (drwy e-bost)

Arolygydd IPCO

E-bost Nicholas.Fletcher@IPCO.org.uk

Rhif ffôn: 07468 846221